

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Uned Mân Anafiadau, Ysbyty'r Barri,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r
Fro

Dyddiad yr arolygiad: 11 Mawrth 2026

Dyddiad cyhoeddi: 12 Mehefin 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	• Ansawdd Profiad y Claf	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	19
4.	Y camau nesaf	24
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	27
	Atodiad C - Cynllun gwella	28

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o'r Uned Mân Anafiadau, Ysbyty'r Barri, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 11 Mawrth 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri arolygydd gofal iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac adolygydd profiad y claf.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 19 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, dywedodd pobl eu bod yn cael profiad cadarnhaol wrth ddefnyddio'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty'r Barri. Dangosodd adborth o arolwg cleifion AGIC lefelau uchel o foddhad, gyda chleifion yn nodi'n gyson fod y staff yn barchus, yn gwrtais ac yn cyfathrebu'n glir. Cadarnhaodd pob un o'r ymatebwyr eu bod wedi cael eu gweld ar gyfer asesiad a thriniaeth neu atgyfeiriad o fewn dwy awr i gyrraedd, gan ddangos mynediad amserol at ofal.

Roedd y gwasanaeth yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, wedi'i gefnogi gan drefniadau brysbennu effeithiol drwy wasanaeth Caerdydd a'r Fro 24/7. Roedd y prosesau hyn yn helpu i nodi anghenion unigol, gan gynnwys dewisiadau iaith ac ystyriaethau o ran diogelu, gan olygu bod modd teilwra'r gofal a'r trefniadau cyfathrebu'n briodol.

Gwelsom fod y staff yn rhoi gofal yn gyson mewn ffordd a oedd yn amddiffyn urddas a phreifatrwydd y cleifion. Roedd prosesau hybu iechyd yn cael eu cefnogi'n dda drwy wybodaeth hygyrch o fewn yr amgylchedd, gan gynnwys hyb gwybodaeth pwrpasol a phosteri wedi'u lleoli mewn ffordd ddisylw yn mynd i'r afael â themâu iechyd a diogelu allweddol. Roedd gwybodaeth ar gael mewn sawl iaith, ac roedd codau QR yn helpu pobl i gael gafaél ar ddeunyddiau wedi'u cyfieithu.

Ar y cyfan, roedd yr Uned Mân Anafiadau yn darparu gofal amserol a pharchus wedi'i deilwra at yr unigolyn, ac wedi'i gefnogi gan gyfathrebu clir, prosesau brysbennu effeithiol a model strwythuredig yn seiliedig ar apwyntiadau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Parhau i gryfhau cysondeb o ran arferion cyfathrebu er mwyn lleihau problemau cyfathrebu unigol
- Parhau i oruchwylio trefniadau cyfathrebu teg wrth i'r galw ar y gwasanaeth ddatblygu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yn rhoi gofal parchus ac urddasol sy'n canolbwyntio ar y claf
- Roedd yn cynnal asesiadau a thriniaethau amserol i bob ymatebydd
- Roedd yn helpu i hybu iechyd drwy wybodaeth hygyrch, ddisylw ac amlieithog.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau ar waith yn yr Uned Mân Anafiadau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd y staff yn dangos dealltwriaeth glir o risg glinigol a phrosesau uwchgyfeirio, ac roedd systemau ar waith i gefnogi trefniadau brysbennu priodol a llif cleifion drwy wasanaeth Caerdydd a'r Fro 24/7. Roedd cyfrifoldebau diogelu yn rhan o'r ymarfer dyddiol, ac roedd y staff yn gallu disgrifio sut roedd pryderon yn cael eu nodi a'u huwchgyfeirio pan oedd angen gwneud hynny.

Roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau yn effeithiol ar y cyfan. Roedd yr amgylchedd clinigol yn lân ac yn drefnus, roedd y staff yn dilyn arferion priodol o ran cyfarpar diogelu personol, roedd y cyfarpar meddygol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd gwiriadau gwasanaethu yn gyfredol. Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel, wedi'i ategu gan drefniadau goruchwyllo gan y fferyllfa, ac roedd y staff yn ymwybodol o arferion rheoli meddyginiaethau diogel.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd lle mae angen cymryd camau pellach i gryfhau diogelwch a lleihau risg. Roedd y rhain yn cynnwys gwendidau o ran y trefniadau uwchgyfeirio gweithredol a'r gallu i gael gafael ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel uwch, bylchau yn y trefniadau diogelwch a threfniadau'r system teledu cylch cyfyng, ynghyd â materion amgylcheddol sy'n creu risgiau o ran atal heintiau. Yn ogystal, roedd anghysondebau wrth ddogfennu meddyginiaethau a chadw cofnodion cleifion yn cynyddu'r risg o wallau, ac mae angen gwella'r prosesau hyn er mwyn cefnogi parhad gofal diogel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cryfhau'r trefniadau uwchgyfeirio gweithredol, diogelwch a threfniadau diogelu'r safle, gan gynnwys eglurder ynghylch cymorth ar lefel uwch a goruchwyllo'r system teledu cylch cyfyng
- Gwella'r gwaith cynnal a chadw amgylcheddol a chysondeb dogfennaeth sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau a dogfennaeth cofnodion cleifion i leihau'r risgiau i ddiogelwch.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn dangos ymwybyddiaeth dda o risg glinigol, prosesau uwchgyfeirio a threfniadau diogelu

- Roedd y trefniadau atal heintiau, rheoli cyfarpar a storio meddyginiaethau yn effeithiol ar y cyfan
- Roedd gwaith brysbennu a llif cleifion yn cael eu cefnogi drwy systemau strwythuredig a phrosesau clir.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau arwain a llywodraethu sefydledig ar waith yn yr Uned Mân Anafiadau, wedi'u cefnogi gan dîm staff ymroddedig a phrofiadol. Roedd y staff yn deall y trefniadau arwain o ddydd i ddydd, ac roedd tystiolaeth o gymorth proffesiynol gan yr uwch-arweinwyr clinigol. Roedd cyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad rheolaidd yn cael eu defnyddio i oruchwylio'r gwasanaeth, adolygu gwybodaeth am y gwasanaeth a rhannu gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn disgrifio diwylliant tîm cadarnhaol a chefnogol, ynghyd â chymorth da gan gymheiriaid a mecanweithiau cyfathrebu anffurfiol. Roedd yr uwch-arweinwyr i'w gweld yn amlwg yn y gwasanaeth, a dywedodd y staff ar y cyfan eu bod yn teimlo y gallent fynegi pryderon. Roedd y gallu i ymgysylltu â phrosesau sefydliadol ehangach yn cael ei gefnogi drwy gyfuniad o gyfarfodydd wyneb yn wyneb a rhithwir, ond soniodd y staff ar y safle bach hwn a oedd ar wahân am rai ffactorau a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i gymryd rhan lawn.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi gwendidau o ran y trefniadau llywodraethu gweithredol a chapasiti arweinwyr. Roedd swyddi rheoli gweithredol a oedd wedi bod yn wag ers amser wedi lleihau'r gallu i ddatblygu'r gwasanaeth a chynnal trefniadau goruchwylio parhaus. Yn ogystal, nododd y staff ddiffyg eglurder ynghylch atebolrwydd ar lefel y safle a'r trefniadau ar alwad, a oedd yn lleihau eu hyder y byddai arweinwyr yn ymateb. Mae angen cryfhau'r trefniadau llywodraethu ar gyfer cynllunio'r gweithlu a sicrwydd er mwyn cefnogi gwydnwch y gwasanaeth a sicrhau gwelliannau parhaus.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cryfhau'r capasiti arwain gweithredol a sicrhau eglurder ynghylch atebolrwydd ar lefel y safle a'r trefniadau ar alwad
- Gwella'r trefniadau llywodraethu er mwyn helpu i gynllunio gweithlu cynaliadwy, darparu sicrwydd a datblygu'r gwasanaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Disgrifiodd y staff ddiwylliant tîm cadarnhaol ynghyd â chymorth cryf gan gymheiriaid ac arweinwyr gweladwy
- Roedd y strwythurau llywodraethu yn cefnogi'r trefniadau ar gyfer goruchwylio, adolygu digwyddiadau a dysgu ar y cyd
- Roedd yr uwch-arweinwyr clinigol yn rhoi cymorth proffesiynol i staff yr uned.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion eu bod wedi cael profiad cadarnhaol wrth ddefnyddio'r Uned Mân Anafiadau. Roedd yr ymatebion i holiadur cleifion AGIC yn amlygu lefelau boddhad uchel o ran y gofal a dderbyniwyd. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion fod y staff yn dangos parch, yn gwrtais ac yn cyfathrebu'n glir. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael eu hasesu'n brydlon, a chadarnhaodd pawb a ymatebodd eu bod wedi cael eu gweld o fewn dwy awr i gyrraedd.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“yn barod iawn i helpu ac yn gwrtais”

“bob amser yn effeithlon iawn”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Gwelsom fod yr Uned Mân Anafiadau yn mynd ati i hybu iechyd drwy wybodaeth hygyrch ac arwyddion clir o fewn yr amgylchedd. Roedd hyb gwybodaeth pwrpasol wedi'i leoli yn y dderbynfa yn darparu ystod eang o daflenni gwella iechyd, a ddisgrifiwyd gan y staff fel adnodd gwerthfawr i'r cleifion.

Mae gwybodaeth ar gael mewn sawl iaith. Er bod llawer o'r taflenni i gleifion wedi'u llunio yn Saesneg, caiff codau QR eu cynnwys i'w galluogi i gael gafael ar fersiynau wedi'u cyfieithu, gan helpu i sicrhau y gall cleifion gael gwybodaeth iechyd yn eu dewis iaith.

Mae'r uned hefyd yn arddangos posteri hybu iechyd yn yr ardaloedd aros ac yn y toiledau, sy'n ymdrin â phynciau allweddol megis trais domestig, atal hunanladdiad, a chymorth iechyd meddwl. Roedd y deunyddiau hyn wedi'u lleoli'n briodol fel eu bod ar gael yn ddisylw i unigolion y gallai fod eu hangen arnynt.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y staff yn rhoi gofal yn gyson mewn ffordd a oedd yn amddiffyn urddas a phreifatrwydd y cleifion. Roedd y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd dawel, sensitif a chwrtais, ac ni welwyd unrhyw ffactorau amgylcheddol a oedd yn tanseilio preifatrwydd. Gwelsom hefyd fod y staff yn ymddwyn mewn ffordd gynnil wrth roi

gofal personol, gan sicrhau bod y cleifion yn cael eu parchu drwy gydol eu hymweliad.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r holiadur yn cytuno'n gryf bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch ac yn diogelu eu preifatrwydd wrth ddarparu gofal.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Roedd y staff yn dangos dealltwriaeth glir o anghenion unigol cleifion sy'n defnyddio'r Uned Mân Anafiadau. Roedd adnoddau sgrinio yn cael eu defnyddio mewn modd effeithiol wrth frysbennu dros y ffôn gyda gwasanaeth Caerdydd a'r Fro 24/7 (CAF24/7), gyda'r staff yn cael eu hatgoffa i nodi dewis iaith ac ystyriaethau diogelu, gan helpu i sicrhau bod y cyfathrebu a'r gofal wedi'u teilwra at amgylchiadau pob unigolyn.

Dyweddodd y staff fod yr amgylchedd yn addas ar gyfer rhai unigolion ag anghenion iechyd meddwl lefel is, gan gynnig lleoliad tawelach o'i gymharu ag adrannau brys mwy. Lle roedd angen mewnbwn arbenigol ar gleifion, megis asesiad iechyd meddwl mewn argyfwng neu gamau i reoli clefydau heintus, roedd y staff yn sicrhau eu bod yn cael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol i Ysbyty Athrofaol Cymru, gan ddangos defnydd priodol o farn glinigol yn seiliedig ar risgiau ac anghenion unigol.

Amserol

Gofal amserol

Dyweddodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael eu hasesu'n brydlon ar ôl cyrraedd yr Uned Mân Anafiadau. Dangosodd ymatebion i'r arolwg fod traean o'r cleifion wedi cael eu hasesu ar unwaith, a bod y ddau draean arall wedi cael eu hasesu o fewn 30 munud.

Dyweddodd pawb a ymatebodd eu bod wedi cael eu gweld ar gyfer triniaeth neu atgyfeiriad o fewn dwy awr i gyrraedd yr uned.

Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr arolygiad hefyd yn dangos bod y system seiliedig ar apwyntiadau yn helpu i sicrhau mynediad amserol at ofal. Dangosodd ein harsylwadau fod apwyntiadau'r rhan fwyaf o'r cleifion yn cael eu cynnal yn brydlon, a dywedodd y staff fod cleifion yn cael eu gweld mewn modd amserol heb orfod aros rhyw lawer oherwydd y dull apwyntiadau strwythuredig.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dyweddodd pobl wrthym fod y staff wedi cyfathrebu â nhw mewn modd clir a pharchus drwy gydol eu hymweliad. Roedd yr adborth o arolwg profiad y claf yn

nodi bod y staff yn egluro'r asesiadau a'r triniaethau mewn ffordd hawdd ei deall, a bod y cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn gwrtais ac yn urddasol. Ni nododd unrhyw ymatebwyr eu bod wedi profi achos o wahaniaethu wrth gael gofal. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a oedd yn mynychu'r gwasanaeth yn nodi mai Saesneg oedd eu prif iaith, ac nid oedd unrhyw arwydd o'r adborth bod anghenion iaith yn creu rhwystr i dderbyn gwybodaeth neu gyngor amserol. Er mai Saesneg oedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn ei siarad, roedd posterï dwyieithog ym mhob rhan o'r uned ac roedd llawer o'r taflenni gwybodaeth ar gael i'w lawrlwytho yn Gymraeg.

Gwnaethom edrych ar wybodaeth am ddigwyddiadau a nodi bod nifer bach o adroddiadau Datix yn cyfeirio at anawsterau o ran cyfathrebu rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y rhain yn ymwneud ag enghreifftiau unigol o ryngweithio yn hytrach na rhwystrau systemig, ac nid oeddent yn awgrymu pryderon ehangach mewn perthynas â chael gafael ar wybodaeth na chyfathrebu teg.

Roedd y staff hefyd yn trafod pwysigrwydd arferion cyfathrebu cyson, gan gynnwys yr angen i ddefnyddio adnoddau cyfathrebu mewn modd clir, yn ystod cyfarfodydd tîm. Mae hyn yn dangos ymwybyddiaeth o rôl cyfathrebu effeithiol wrth gefnogi profiad da i gleifion.

Hawliau a Chydraddoldeb

Roedd y data demograffig a gasglwyd drwy'r holiadur yn amlygu ystod eang o oedrannau a chefnidiroedd ymhlith yr ymatebwyr. Dywedodd y cleifion yn gyson eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u bod yn gallu gofyn cwestiynau am eu gofal. Ni soniodd unrhyw ymatebwyr am achosion o ymarfer gwahaniaethol.

Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddi fod hyfforddiant ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn orfodol i bob aelod o'r staff yn yr uned a bod lefelau cydymffurfiaeth yn cael eu monitro'n gyson.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod sawl proses sefydledig ar waith yn yr Uned Mân Anafiadau i helpu i uwchgyfeirio gofal yn ddiogel a rheoli risg glinigol. Dangosodd y staff ymwybyddiaeth glir o'u cyfrifoldebau wrth nodi cleifion a oedd yn dirywio, ac roedd llwybrau uwchgyfeirio meddygol ar waith, roedd y staff yn eu deall, ac roeddent yn rhan o'r ymarfer cyffredinol.

Roedd defnyddio system CAF 24/7 yn cefnogi trefniadau brysbennu diogel ac effeithiol, gan sicrhau bod cleifion yn cael eu cyfeirio'n briodol a bod slotiau apwyntiadau gwarchoddedig yn hyrwyddo llif cleifion cyson. Disgrifiodd y staff drefniadau parhad busnes clir hefyd i reoli methiannau o ran systemau neu heriau staffio. Yn ogystal, roedd y Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer Ailgyfeirio ac Atal Mân Anafiadau yn darparu dull strwythuredig yn seiliedig ar risg ar gyfer rheoli galw aciwtedd isel yn ystod cyfnodau prysur, ac roedd meini prawf cynnwys ac eithrio wedi'u diffinio'n glir ar waith i helpu i liniaru risgiau yn effeithiol.

Er gwaethaf y cryfderau clinigol hyn, nodwyd problemau o ran rheoli risg yn ystod yr arolygiad, yn enwedig mewn perthynas ag uwchgyfeirio pryderon gweithredol. Cyfeiriodd y staff at anawsterau wrth gysylltu mewn modd amserol â'r unigolion sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel uwch, gan gynnwys y nyrs â chyfrifoldeb, yr uwch-nyrs neu'r rheolwr ar alwad. Mae'r diffyg mynediad dibynadwy hwn at brosesau goruchwyllo gan uwch-staff yn peri risg bosibl yn ystod digwyddiadau sy'n gofyn am fewnbwn rheoli prydlon. **Mae'r camau gweithredu gofynnol wedi'u nodi o dan Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth - Trefniadau llywodraethu.**

Yn ogystal, nododd y tîm arolygu, ar y cyd â'r bwrdd iechyd, risgiau diogelwch a risgiau amgylcheddol. Nid oes porthor na chymorth diogelwch ar gael ar safle'r Uned Mân Anafiadau, a disgrifiodd y staff ddigwyddiadau blaenorol lle y bu'n anodd cael cymorth yn ystod achosion o ymddygiad ymosodol. Roedd y risgiau hyn wedi'u hadlewyrchu ar gofrestr risgiau adrannol y bwrdd iechyd, a oedd yn tynnu sylw at gwmpas gwael y system teledu cylch cyfyng a manau hysbys nad oedd modd eu gweld ym mhob rhan o'r safle. Nid oedd y staff yn glir ynghylch trefniadau monitro'r system teledu cylch cyfyng, gan gynnwys a oedd y broses monitro yn fyw neu'n ôl-weithredol, gan awgrymu bylchau o ran ymwybyddiaeth sefyllfaol a pharodrwydd i ymateb i ddigwyddiadau. **Rhaid i'r bwrdd iechyd gryfhau trefniadau diogelwch yr Uned Mân Anafiadau, gan gynnwys y system teledu cylch cyfyng a'r gallu i gael cymorth amserol yn ystod achosion o ymddygiad ymosodol.**

Roedd lleoliad yr uned fel uned ar wahân a'r model staffio bach yn cynyddu bregusrwydd gweithredol ymhellach. Ar ddiwrnod yr arolygiad, dim ond un Ymarferydd Nyrsio Brys oedd yn bresennol oherwydd absenoldebau staff, a nododd y staff eu bod yn dibynnu i raddau ar ewyllys da i gynnal parhad y gwasanaeth. Mae lefelau staffio cyfyngedig yn cynyddu'r risg yn ystod adegau o gynnydd annisgwyl mewn gweithgarwch neu pan fo angen cymorth uwchgyfeirio ar unwaith. Nodwyd bod yr uwch-reolwyr wedi dechrau treial i ymestyn yr oriau agor, ochr yn ochr â chynlluniau tymor hwy i gynyddu nifer yr apwyntiadau sydd ar gael. **Nodir rhagor o wybodaeth am y gweithlu yn yr adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.**

Er bod Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer uwchgyfeirio a brysbennu ar waith, roedd y dystiolaeth yn dangos anghysondeb o ran eu rhoi ar waith yn ymarferol. Yn benodol, roedd y ffaith nad oedd modd uwchgyfeirio materion gweithredol mewn modd dibynadwy yn dangos nad oedd y llwybrau uwchgyfeirio bob amser yn effeithiol o safbwynt ymarferol. Cyfeiriodd y staff hefyd at ansicrwydd ynghylch y Gweithdrefnau Gweithredu Safonol sy'n ymwneud â diogelwch, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau monitro'r system teledu cylch cyfyng, gan amlygu gwendidau o ran trefniadau llywodraethu, goruchwylio ac eglurder cyfrifoldebau.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Yn ystod ein harolygiad gwelsom fod yr Uned Mân Anafiadau yn cynnal safonau uchel o ran glendid ac atal heintiau. Roedd y staff yn dangos ymdeimlad cryf o berchnogaeth dros hylendid a threfniadaeth yr amgylchedd clinigol, a gwnaethom eu gweld yn dilyn arferion cywir o ran cyfarpar diogelu personol yn ystod gweithdrefnau clinigol, gan gynnwys dresinau, yn unol â gofynion noeth o dan y penelin. Roedd y staff domestig i'w gweld yn glanhau'r adran yn ystod yr arolygiad, gan gyfrannu at amgylchedd diogel a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Roedd yr ardaloedd clinigol yn lân, yn drefnus ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan, a gwelwyd dystiolaeth bod cyfarpar yn cael ei wirio a'i lanhau'n rheolaidd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi problemau o ran yr amgylchedd ffisegol a oedd yn peri risgiau o ran atal a rheoli heintiau. Roedd y rhain yn cynnwys sedd a oedd wedi'i difrodi gyda'r defnydd arni wedi rhwygo yn yr ardal aros i blant a lloriau y mae angen eu cynnal a'u cadw er mwyn sicrhau y gellir eu dihalogi'n effeithiol. Mae'r problemau hyn yn tanseilio'r gallu i gynnal safonau glendid priodol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â materion amgylcheddol sy'n peri risgiau o ran atal a rheoli heintiau, gan gynnwys atgyweirio neu newid seddi sydd wedi'u

difrodi, a sicrhau bod modd glanhau arwyneb pob llawr yn drylwyr a bod y lloriau i gyd yn cydymffurfio â safonau atal a rheoli heintiau.

Diogelu plant ac oedolion

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod cyfrifoldebau diogelu wedi'u cynnwys yn amlwg fel rhan o ymarfer dyddiol yr Uned Mân Anafiadau. Dywedodd y staff wrthym fod ystyriaethau diogelu yn cael eu cynnwys yn rheolaidd fel rhan o drefniadau brysbennu, gan helpu i nodi pryderon posibl yn gynnar. Mae'r bwrdd iechyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o'r staff gael hyfforddiant diogelu hyd at Lefel 2, ac roedd cyngor diogelu Lefel 3 ar gael i'r uned gan dîm diogelu a thîm pediatrig Ysbyty Athrofaol Cymru yn ôl yr angen.

Dangosodd y staff ymwybyddiaeth briodol o risgiau diogelu ar draws ystod o grwpiau cleifion, gan gynnwys unigolion ag anghenion iechyd meddwl, anabledau dysgu, dementia ac awtistiaeth. Roedd deunyddiau a phosteri cyfeirio perthnasol wedi'u harddangos yn yr uned i helpu cleifion a theludoedd yr oedd angen help arnynt, ac roedd ardal aros bwrpasol i blant yn cyfrannu at amgylchedd a oedd yn canolbwyntio ar ddiogelu.

Nid oedd gan y staff unrhyw bryderon cyfredol ynghylch unigolion a oedd yn dod i'r uned yn rheolaidd, a gwnaethant ddisgrifio'r prosesau sydd ar waith i gefnogi unigolion pe byddent yn dod i'r uned dro ar ôl tro â phroblemau iechyd neu broblemau cymdeithasol. Yn ogystal, roedd y staff yn canmol eu cydberthnasau gwaith ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a oedd yn helpu i gludo cleifion yr oedd angen eu huwchgyfeirio yn ddiogel.

Ar y cyfan, gwelsom fod gan staff yr Uned Mân Anafiadau yn deall eu cyfrifoldebau diogelu yn glir a'u bod bob amser yn eu rhoi ar waith yn ymarferol. Roedd materion diogelu yn cael eu hystyried fel mater o drefn wrth frysennu, gyda chymorth gan uwch-arbenigwyr diogelu, ac roedd y staff yn gallu rhoi enghreifftiau ymarferol o sut roedd pryderon yn cael eu cydnabod a'u huwchgyfeirio yn unol â'r ymarfer disgwyliedig.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod gan y gwasanaeth drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli, monitro a chynnal a chadw dyfeisiau meddygol. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt ddigon o gyfarpar i ddiwallu anghenion y cleifion, a gwelsom fod yr adran yn drefnus iawn, a bod dyfeisiau clinigol yn cael eu storio'n daclus ac wedi'u labelu'n glir. Roedd pob eitem o gyfarpar meddygol a welsom yn ystod yr arolygiad mewn cyflwr da, ac roedd y gwiriadau gwasanaethu a diogelwch yn gyfredol. Disgrifiodd y staff brosesau clir ar gyfer rhoi gwybod am ddiffygion, a chawsom ein sicrhau bod atgyweiriadau yn cael eu cwblhau'n brydlon, ac nad oedd unrhyw broblemau cynnal a chadw heb eu datrys.

Roedd cyfarpar brys, gan gynnwys y troli adfywio, ar gael yn yr uned. Gwelsom dystiolaeth bod y troli'n cael ei wirio'n rheolaidd a bod ei holl gynnwys yn gyfredol. Cadarnhaodd y staff fod y troli'n cael ei selio gan ddefnyddio cling ffilm. Er bod hyn yn rhoi sicrwydd gweladwy bod gwiriadau wedi'u cwblhau, **dylai'r bwrdd iechyd adolygu priodoldeb defnyddio cling ffilm i selio'r troli adfywio. Dylai'r adolygiad hwn sicrhau bod unrhyw ddull selio yn cydymffurfio â safonau atal a rheoli heintiau, gofynion rheoli meddyginiaethau (gan gynnwys monitro tymheredd lle y bo'n berthnasol), ac ystyriaethau o ran cynaliadwyedd, ac yn darparu tystiolaeth glir o sêl ddiogelwch, heb gyflwyno risg ychwanegol.**

Roedd stoc traul yn drefnus iawn, gydag eitemau yn cael eu storio'n daclus a'u cylchdroi'n briodol i leihau'r risg o ddefnyddio cynhyrchion â'r dyddiad arnynt wedi mynd heibio. Roedd y staff yn dangos eu bod yn gyfrifol am ardaloedd cyfarpar ac yn siarad yn gadarnhaol am gynnal amgylchedd glân a threfnus.

Ar y cyfan, gwelsom fod gan yr uned drefniadau diogel ac effeithiol ar gyfer rheoli dyfeisiau meddygol. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol, roedd yr amgylchedd yn drefnus, ac roedd y staff yn deall eu cyfrifoldebau o ran sicrhau bod dyfeisiau yn parhau'n ddiogel, yn ymarferol ac yn addas at y diben.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod y meddyginiaethau yn yr Uned Mân Anafiadau yn cael eu rheoli'n ddiogel, a bod systemau ar waith i gefnogi trefniadau storio diogel, prosesau presgripsiynu priodol, prosesau ar gyfer rhoi meddyginiaethau mewn modd amserol, a gwaith goruchwyllo effeithiol. Dangosodd y staff ymwybyddiaeth dda o arferion diogel mewn perthynas â meddyginiaethau, a threfniadau a oedd yn cyd-fynd â'r disgwyliadau a nodir yng Nghod Meddyginiaethau'r Bwrdd Iechyd.

Roedd yr Uned Mân Anafiadau yn elwa ar drefniadau goruchwyllo fferyllol drwy fferylllydd dynodedig a oedd yn monitro'r cwpwrdd meddyginiaethau ac yn cynnal lefelau'r stoc. Roedd hyn yn rhoi sicrwydd bod y cyflenwad meddyginiaethau a'r prosesau cylchdroi ac adolygu stoc yn cael eu cefnogi'n briodol. Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel, gyda chypyrddau cyffuriau ac oergelloedd meddyginiaethau wedi'u cloi, ac ni welsom unrhyw feddyginiaethau yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio ar adeg yr arolygiad. Roedd y trefniadau hyn yn gyson â gofynion y Cod Meddyginiaethau o ran storio diogel, monitro tymheredd yn ddyddiol a gwahanu meddyginiaethau er mwyn lleihau risg.

Roedd meddyginiaethau i fynd adref ar gael, a disgrifiodd y staff brosesau clir i sicrhau bod cleifion yn gadael yr Uned Mân Anafiadau gyda'r feddyginiaeth briodol pan oedd angen. Gwnaethom edrych ar gardiau anafiadau a Siartiau Cyffuriau Cymru Gyfan a gwelsom eu bod wedi'u cwblhau'n gywir. Dywedodd y staff wrthym

fod meddyginiaethau naill ai'n cael eu rhoi ar bresgripsiwn electronig neu ar gardiau anafiadau, a bod manylion rhoi'r meddyginiaethau hynny yn cael eu cofnodi'n gyson ac ar y pryd, gan gefnogi dull pwyllog a diogel o roi meddyginiaethau.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi risg diogelwch bosibl lle roedd y presgripsiynau ar gyfer meddyginiaethau ar sawl darn o ddogfennaeth. Mae hyn yn cynyddu'r risg o ddyblygu neu o orddos os na chaiff pob cofnod ei wirio'n drylwyr cyn rhoi'r feddyginiaeth. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion presgripsiynu a rhoi meddyginiaethau yn cael eu cyfuno neu eu cysoni'n glir i leihau'r risg o wallau ac i gefnogi arferion diogel mewn perthynas â meddyginiaethau.**

Roedd y cleifion yn cael meddyginiaethau lleddfu poen mewn modd amserol, gan ddefnyddio'r Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion. Cadarnhaodd y staff y gallai analgesia gael ei roi'n brydlon o dan y Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion, yn unol â threfniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd ar gyfer meddyginiaethau a ddarperir gan nyrsys. Gwnaethom edrych ar restr Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion yr Ymarferydd Nyrsio Brys a chanfod bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith i sicrhau bod yr uned yn gweithredu'n unol â'r Cyfarwyddiadau hyn.

Effeithiol

Maeth a hydradu

Dywedodd y rhan fwyaf o'r unigolion a ymatebodd i'r holiadur i gleifion fod digon o fwyd, diodydd a chyfleusterau toiled ar gael iddynt yn ystod eu hamser yn yr uned. Mae'r adborth hwn yn dangos bod yr amgylchedd yn cefnogi anghenion sylfaenol y cleifion o ran maeth a hydradu wrth iddynt aros am asesiad neu driniaeth. Roedd caffi ar gael yn yr ysbyty.

Cofnodion cleifion

Wrth edrych ar y dystiolaeth, gwelsom arferion anghyson o ran cadw cofnodion yn yr uned. Dangosodd archwiliad o nodiadau amrywiadau yn y ffordd roedd dogfennaeth yn cael ei chwblhau, gyda gwybodaeth glinigol yn cael ei chofnodi ar nifer o systemau electronig a phapur, ac mewn hyd at bedwar lleoliad gwahanol. Roedd y dull gweithredu tameidiog hwn yn cynyddu'r risg o hepgor neu ddyblygu cofnodion neu greu cofnodion gwrthgyferbyniol, yn enwedig mewn perthynas â phresgripsiynu a gwneud penderfyniadau clinigol, ac yn ei gwneud yn anoddach i glinigwyr gael gafael yn hawdd ar wybodaeth hanfodol yn ystod asesiadau a thriniaethau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd gryfhau'r ffordd y caiff cofnodion cleifion eu rheoli drwy sicrhau bod gwybodaeth glinigol yn cael ei chofnodi mewn modd clir, safonol a chyfunol er mwyn lleihau risg a helpu i sicrhau parhad gofal diogel.

Effeithlon

Effeithlon

Mae'r model sy'n seiliedig ar apwyntiadau yn cefnogi llif cleifion effeithlon, gan greu amgylchedd rheoledig â llai o bobl yn yr un ardaloedd ar yr un pryd.

Dywedodd y staff fod y model hwn hefyd yn gwella eu gallu i ddarparu gofal cleifion amserol a phenodol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Gwelsom fod trefniadau arwain clir a oedd yn cael eu deall yn dda ar y cyfan ar waith yn yr Uned Mân Anafiadau. Roedd yr Ymarferwyr Nyrsio Brys yn cael eu cefnogi gan arweinwyr tîm ac uwch-aelodau o'r staff nyrsio, a disgrifiodd y staff ddiwylliant cadarnhaol â phrosesau cyfathrebu effeithiol a'r gallu i gysylltu â'r uwch-reolwyr. Fodd bynnag, roedd heriau parhaus yn ymwneud â'r gweithlu a bylchau yng nghapasiti'r rheolwyr gweithredol yn dangos nad oedd y systemau llywodraethu bob amser yn ddigon cadarn a bod angen eu cryfhau.

Strwythurau Arwain a Goruchwylio

Dywedodd y staff wrthym fod y trefniadau arwain o ddydd i ddydd yn glir, gyda threfniadau goruchwylio yn cael eu darparu gan yr uwch-nyrsys a chymorth drwy gyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad rheolaidd. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cael eu defnyddio i adolygu digwyddiadau, rhannu gwersi a ddysgwyd, a nodi cymorth ychwanegol lle bo angen. Roedd yr uwch-reolwyr, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Nyrsio, yn ymweld â'r uned, a dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn gallu mynegi pryderon pan oedd angen.

Roedd tystiolaeth o gymorth proffesiynol cryf gan yr uwch-arweinwyr clinigol, gan gynnwys ymgynghorydd nyrsio, ochr yn ochr â threfniadau cymorth cadarnhaol gan gymheiriaid, megis sianeli cyfathrebu anffurfiol. Fodd bynnag, cyfeiriodd y rheolwyr at swyddi rheoli gweithredol a oedd wedi bod yn wag dros y 18 mis blaenorol, a oedd wedi cyfyngu ar y gallu i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth. **Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod capasiti rheoli gweithredol digonol a pharhaus ar waith er mwyn gallu datblygu'r gwasanaeth, ei oruchwylio a'i lywodraethu'n effeithiol.**

Trefniadau Llywodraethu

Roedd prosesau llywodraethu ffurfiol wedi'u hymgorffori drwy gyfarfodydd rheolaidd, system cofnodi digwyddiadau Datix, ac adolygiadau rheolaidd o wybodaeth ar lefel y gwasanaeth. Dywedodd y staff fod gwybodaeth ddiennw am ddigwyddiadau yn cael ei rhannu i helpu i ddysgu, a bod y Gweithdrefnau Gweithredu Safonol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod yn cynnwys llwybrau uwchgyfeirio wedi'u hategu gan brosesau ar gyfer cyfathrebu drwy CAF 24/7.

Er gwaethaf y trefniadau hyn, nodwyd gwendidau o ran y trefniadau llywodraethu gweithredol. Cyfeiriodd y staff at ansicrwydd ynghylch cyfrifoldebau monitro mewn perthynas â'r system teledu cylch cyfyng ac anawsterau wrth ddefnyddio'r llwybrau

uwchgyfeirio presennol i gysylltu ag unigolion sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel uwch. Yn ogystal, roedd y staff yn aneglur ynghylch atebolrwydd cyffredinol mewn perthynas â'r safle, gan gynnwys y trefniadau ar alwad Aur, Arian ac Efydd. **Rhaid i'r bwrdd iechyd gryfhau'r trefniadau llywodraethu gweithredol drwy ddiffinio a chyfleu'r trefniadau mewn perthynas ag atebolrwydd ar lefel y safle, y llwybrau uwchgyfeirio a'r cyfrifoldebau ar alwad yn glir, a thrwy sicrhau bod y staff bob amser yn gwybod sut i gysylltu â'r unigolion sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel uwch pan fo angen.**

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Cydnabu uwch-aelodau o'r staff heriau parhaus o ran y gweithlu, gan gynnwys swyddi gwag, diffyg tîm gweithredol pwrpasol ar gyfer rheoli argyfyngau, a'r angen i ehangu darpariaeth yr Uwch-ymarferwyr Nyrsio. Roedd cymorth sefydliadol allanol yn cael ei defnyddio i adolygu'r strwythurau staffio, ac roedd disgwyl i waith cynllunio pellach ddatblygu dros y misoedd nesaf. Nododd rhai o'r staff fod pwysau llwyth gwaith yn golygu bod unigolion weithiau'n ymgymryd â thasgau y tu allan i'w rolau arferol.

Wrth arsylwi ar y gweithlu nodwyd bod y staff yn teimlo bod niferoedd digonol i ddiwallu'r galw clinigol ar y cyfan; fodd bynnag, roedd un aelod o'r staff yn absennol ar ddiwrnod yr arolygiad.

Disgrifiodd y staff ddiwylliant tîm cadarnhaol, wedi'i ategu gan fecanweithiau cymheiriaid, sianeli cyfathrebu anffurfiol megis grŵp WhatsApp, a chyfleoedd i gylchdroi ar draws safleoedd. Nodwyd bod y lefelau salwch yn isel ar adeg yr arolygiad, a siaradodd y staff yn gadarnhaol am y trefniadau cymorth mewnol. Cydnabu uwch-aelodau o'r staff hefyd natur ynysig safle'r Uned Mân Anafiadau gan nodi y byddai gwella'r gallu i gael gafaél ar gymorth gan uwch-reolwyr, a gwella ymatebolrwydd yr uwch-reolwyr hynny, yn helpu i gynnal hyder y staff a gwydnwch gweithredol.

Dylai'r bwrdd iechyd gryfhau'r trefniadau er mwyn sicrhau bod y staff sy'n gweithio ar y safle ar wahân hwn yn gallu cael cymorth gweithredol a chymorth gan reolwyr mewn modd amserol a dibynadwy.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddi, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer goruchwylio a llywodraethu hyfforddiant. Er bod systemau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant, nodwyd bylchau o ran hyfforddiant Cynnal Bywyd Canolraddol. Codwyd hyn gyda rheolwyr yr uned fel risg sylweddol. Erbyn diwedd yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth i gadarnhau y byddai rhaglen addysg fewnol ar Gynnal Bywyd Canolraddol yn dechrau ar 18 Mawrth 2026. Y bwriad oedd sicrhau bod pob Ymarferydd Nyrsio Brys wedi cwblhau hyfforddiant Lefel 2 ar Gynnal

Bywyd Canolraddol erbyn 1 Ebrill 2026, gan anelu at gydymffurfiaeth achrededig lawn erbyn mis Awst 2026. Cafodd y risgiau uniongyrchol a oedd yn gysylltiedig â hyfforddiant ar Gynnal Bywyd Canolraddol eu lliniaru yn ystod yr arolygiad drwy gamau unioni clir â therfyn amser y cytunwyd arnynt gan reolwyr y bwrdd iechyd, ac felly ymdriniwyd â'r cam gweithredu hwn yr oedd angen ymdrin ag ef ar unwaith yn ystod yr arolygiad (gweler Atodiad A).

Yn ogystal, gwnaethom nodi bod y troli adfywio yn cynnwys silindr ocsigen falf integredig BOC. Yn dilyn trafodaeth, nid oedd arweinwyr y gwasanaeth yn ymwybodol o'r rhybudd diogelwch perthnasol a'r gofyniad i'r staff gwblhau hyfforddiant gorfodol. Cadarnhaodd yr arweinwyr fod trefniadau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn yr uned wedi'i gofrestru ar gyfer yr hyfforddiant gofynnol o fewn yr wythnosau nesaf. Ymdriniwyd â'r cam gweithredu hwn yr oedd angen ymdrin ag ef ar unwaith yn ystod yr arolygiad hefyd a bydd yn destun gwaith monitro pellach gan AGIC drwy'r broses cynlluniau gwella (gweler Atodiad A).

Roedd Tîm Adfywio'r Bwrdd Iechyd yn helpu i gynnal adolygiad ehangach o anghenion hyfforddi. Rhaid i'r bwrdd iechyd ffurfioli asesiadau risg, cynlluniau hyfforddi a threfniadau dilynol ar gyfer hyfforddiant gorfodol, a'u cynnwys fel rhan o'r prosesau llywodraethu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gynaliadwy.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddiwylliant tîm cadarnhaol a chefnogol, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn yr uned. Gwnaethant gyfeirio at gymorth cryf gan gymheiriaid, gan gynnwys defnyddio mecanweithiau cyfathrebu anffurfiol megis grŵp WhatsApp. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo ar y cyfan eu bod yn gallu uwchgyfeirio pryderon i'r uwch-arweinwyr; fodd bynnag, gwnaethant nodi bod ymatebion neu benderfyniadau weithiau'n arafach nag y byddent wedi'i ddisgwyl.

Roedd y broses ar gyfer cyfathrebu â'r staff yn cael ei chefnogi drwy gyfarfodydd tîm chwarterol, diweddariadau sefydliadol gan Ysbyty Athrofaol Cymru, a sesiynau wedi'u recordio, a oedd yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu â'r rhai na allent fod yn bresennol ar y pryd. Dywedodd y staff fod y tîm yn brofiadol ac yn ymroddedig, ac roedd y lefelau salwch a oedd yn cael eu cofnodi yn isel ar adeg yr arolygiad. Roedd y cyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad misol hyn yn cael eu defnyddio i adolygu digwyddiadau, rhannu gwersi dienw i'w dysgu, a nodi cymorth wedi'i dargedu lle bo angen.

Fel safle bach ar wahân, dywedodd y staff wrthym y gallai fod yn fwy heriol ymgysylltu â'r sefydliad yn ehangach. Nodwyd bod rhywfaint o ddibyniaeth ar lwyfannau rhithwir a chyfarfodydd wedi'u recordio yn cyfyngu ar gyfleoedd i gymryd rhan a thrafod yn fwy llawn. **Dylai'r bwrdd iechyd gryfhau'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â staff er mwyn sicrhau bod y staff ar y safle ar wahân hwn yn gallu cymryd rhan lawn mewn gweithgareddau cyfathrebu, dysgu a gwella sefydliadol.**

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwelsom fod trefniadau llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol ar waith ac yn hwyluso'r gallu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ni nodwyd unrhyw bryderon yn ystod yr arolygiad.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd gweithgarwch gwella ansawdd yn yr Uned Mân Anafiadau yn cael ei gefnogi drwy gyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad rheolaidd, lle roedd y gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau, gan gynnwys adroddiadau Datix dienw, yn cael eu rhannu. Roedd y gwasanaeth wedi llunio trefniadau effeithiol i gefnogi llif cleifion, gan gynnwys slotiau apwyntiadau gwarchoddedig a llwybrau uwchgyfeirio clir ar gyfer parhad busnes, megis yn ystod cyfnodau pan na fyddai'r system CAF 24/7 ar gael. Nodwyd bod y trefniadau hyn yn gweithio'n dda, ac roedd y staff a'r cleifion yn disgrifio profiadau cadarnhaol ac yn gwerthfawrogi gallu'r uned i ddarparu gofal amserol.

Gwnaeth arweinwyr y gwasanaeth hefyd ddisgrifio mentrau ansawdd y bwriadwyd eu cynnal i gryfhau gwydnwch y gwasanaeth a'i helpu i ddatblygu yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys cynigion i ehangu'r oriau agor, gwella'r ddarpariaeth ar gyfer archwiliadau pelydr-X, archwilio'r posibilrwydd o ddargyfeirio gweithgarwch yn ystod penwythnosau i'r Barri, ac adolygu'r strwythurau gweithredol i helpu i ehangu'r gwasanaeth yn ddiogel. Roedd y cynigion hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau ehangach y sefydliad; fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, nid oeddent yn weithredol eto ac roeddent yn parhau'n ddibynnol ar gapasiti gweithlu a chapasiti strwythurol ychwanegol.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Gwelsom fod staff yr Uned Mân Anafiadau yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid system ehangach i gefnogi gofal diogel i gleifion. Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff gydberthnasau gwaith cadarnhaol a sefydledig ag Ymddiriedolaeth

Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, ac ni chodwyd unrhyw bryderon ynghylch dulliau cyfathrebu o fewn y gwasanaeth ar gyfer cludo cleifion gan ddefnyddio gwasanaeth 999. Roedd y dull cydweithredol hwn yn helpu i sicrhau cyfathrebu clir rhwng y staff asesu ac arweinwyr tîm clinigol Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, ac yn cyfrannu at y gwaith o gynnal diogelwch cleifion yn ystod cyfnodau o alw cynyddol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar Gynnal Bywyd Canolraddol</p>	<p>Roedd bylchau yng nghydymffurfiaeth Ymarferwyr Nyrsio Brys â hyfforddiant Cynnal Bywyd Canolraddol yn cynyddu'r risg na fyddai'r staff o bosibl wedi'u paratoi'n ddigonol i adnabod claf sy'n dirywio ac ymateb iddo, a allai effeithio ar ddiogelwch cleifion yn ystod argyfyngau meddygol.</p>	<p>Cododd AGIC hyn gyda rheolwyr yr uned fel pryder diogelwch cleifion sylweddol yn ystod yr arolygiad a gofynnodd am sicrwydd ar unwaith ynghylch camau lliniaru ac unioni.</p>	<p>Erbyn diwedd yr arolygiad, cadarnhaodd y bwrdd iechyd y byddai rhaglen addysg fewnol ar Gynnal Bywyd Canolraddol yn dechrau ar 18 Mawrth 2026, gyda bwriad clir i sicrhau bod pob Ymarferydd Nyrsio Brys wedi cwblhau hyfforddiant Lefel 2 erbyn 1 Ebrill 2026, ac i sicrhau cydymffurfiaeth achrededig lawn erbyn mis Awst 2026. Cafodd y risgiau uniongyrchol eu lliniaru drwy gamau unioni â therfynau amser y cytunwyd arnynt yn ystod yr arolygiad.</p>

<p>Hyfforddiant ar silindrau ocsigen falfiau integredig BOC</p>	<p>Roedd diffyg ymwybyddiaeth ymhlith y staff o'r rhybudd diogelwch perthnasol a'r gofynion hyfforddiant gorfodol sy'n gysylltiedig â silindrau ocsigen falfiau integredig BOC yn cynyddu'r risg y byddai cyfarpar ocsigen brys yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd anniogel wrth adfywio cleifion.</p>	<p>Roedd diffyg ymwybyddiaeth ymhlith y staff o'r rhybudd diogelwch perthnasol a'r gofynion hyfforddiant gorfodol sy'n gysylltiedig â silindrau ocsigen falfiau integredig BOC yn cynyddu'r risg y byddai cyfarpar ocsigen brys yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd anniogel wrth adfywio cleifion.</p>	<p>Cadarnhaodd arweinwyr y gwasanaeth fod trefniadau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn yr uned wedi'i gofrestru ar gyfer yr hyfforddiant gorfodol gofynnol o fewn yr wythnosau nesaf. Ymdriniwyd â'r risg uniongyrchol yn ystod yr arolygiad a bydd yn cael ei monitro drwy'r broses cynlluniau gwella.</p>
------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Uned Mân Anafiadau y Barri

Dyddiad yr arolygiad: 11 Mawrth 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni chafodd cynllun gwella ar unwaith ei gyhoeddi					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Uned Mân Anafiadau y Barri

Dyddiad yr arolygiad: 11 Mawrth 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
-----------------------	----------------------------	-----------------	-----------------------------------	------------------	----------

1.	<p>Nid oedd y trefniadau uwchgyfeirio gweithredol bob amser yn effeithiol, gan gyfyngu ar allu'r staff i gael cymorth amserol gan yr unigolion sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel uwch.</p>	<p>Cryfhau'r trefniadau uwchgyfeirio gweithredol i sicrhau y gall y staff gael cymorth uwch mewn modd dibynadwy pan fo angen.</p>	<p>Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 Arweinyddiaeth Diogel</p>	<p>Mae gweithdrefn weithredu safonol eisoes ar waith i gefnogi'r broses o uwchgyfeirio heriau gweithredol i'r uwch-arweinwyr.</p> <p>Bydd siart lif sy'n cynnwys rhifau cyswllt yn cael ei datblygu i ddarparu canllaw gweledol clir ar gyfer cysylltu ag uwch-arweinwyr clinigol, yn unol â'r weithdrefn weithredu safonol, a bydd yn cael ei harddangos wrth ffonau'r adran.</p>	<p>Nyrs Arweiniol/Rheolwr Gweithredol</p>	<p>30 Ebrill 2026</p>
----	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------	---------------------------

2.	<p>Roedd y trefniadau diogelwch, gan gynnwys cwmpas y system teledu cylch cyfyng a'r cyfrifoldebau monitro, yn aneglur ac nid oeddent yn rhoi sicrwydd digonol o ran diogelwch staff na'r gallu i ymateb i ddigwyddiadau.</p>	<p>Cryfhau'r trefniadau diogelwch, gan gynnwys goruchwylio'r system teledu cylch cyfyng a sicrhau eglurder ynghylch monitro ac uwchgyfeirio yn ystod achosion lle ceir ymddygiad ymosodol.</p>	<p>Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023</p> <p>Diogel</p> <p>Arweinyddiaeth</p>	<p>Mae protocol diffiniedig ar waith i gefnogi ymateb yr adran i drais ac ymddygiad ymosodol. Mae'r staff yn uwchgyfeirio materion yn ymwneud â thrais ac ymddygiad ymosodol drwy ffonio'r switsfwrdd, sy'n ysgogi ymateb gan yr heddlu.</p> <p>Byddwn yn cynnal adolygiad o'r trefniadau diogelwch, a fydd yn cynnwys cwmpas y system teledu cylch cyfyng a nodi manau nad oes modd eu gweld. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyried trefniadau ar gyfer monitro ffrwd fyw o'r system teledu cylch cyfyng yn barhaus. • Ystyried lleoli staff diogelwch yn yr Uned. <p>Bydd addysg yn cael ei darparu i'r staff ynghylch y trefniadau uwchgyfeirio cyfredol ar gyfer</p>	<p>Rheolwr Diogelwch</p> <p>Uwch-nyrs</p>	<p>15 Mehefin 2026</p> <p>30 Ebrill 2026</p>
----	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------	----------------------------------------------

				digwyddiadau'n ymwneud â thrais ac ymddygiad ymosodol.		
3.	Roedd dodrefn a lloriau wedi'u difrodi yn cyflwyno risgiau o ran atal a rheoli heintiau ac yn lleihau'r gallu i lanhau a dihalogi'r amgylchedd yn effeithiol.	Mynd i'r afael â materion cynnal a chadw amgylcheddol er mwyn sicrhau bod pob ardal a'r holl ddodrefn yn cydymffurfio â gofynion atal a rheoli heintiau.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 Diogel	Cael gwared ar y cadeiriau sydd wedi'u difrodi a rhoi rhai newydd yn eu lle. Cynnal archwiliad o'r lloriau ar y cyd â'r adran Ystadau a Chyfleusterau a chytuno ar raglen atgyweirio.	Uwch-nyrs Rheolwr Gweithredol	Wedi'i gwblhau 30 Mai 2026

4.	<p>Roedd meddyginiaethau yn cael eu rhoi ar bresgripsiwn a'u cofnodi mewn dogfennau gwahanol, gan gynyddu'r risg o ddyblygiadau, hepgoriadau neu gamgymeriadau.</p>	<p>Sicrhau bod cofnodion o bresgripsiynau a meddyginiaethau a roddir yn cael eu cyfuno neu eu cysoni'n glir i leihau'r risg o wallau yn ymwneud â meddyginiaethau.</p>	<p>Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 Diogel Effeithiol</p>	<p>Cafodd arolygiad AGIC ei gynnal yn ystod y cyfnod o drosglwyddo o system bapur ar gyfer presgripsiynu a rhoi meddyginiaethau i system electronig (ePMA). Mae holl weithgarwch presgripsiynu yr adran bellach yn cael ei gyflawni drwy'r system ePMA. Fodd bynnag, bydd y cleifion yn parhau i gael eu rhyddhau gyda phresgripsiwn cymunedol (FP10) yn ôl yr angen.</p> <p>Ailbwysleisio i bob aelod o'r staff mai'r system ePMA yw'r unig lwyfan cymeradwy ar gyfer presgripsiynu meddyginiaethau.</p>	<p>Nyrs Arweiniol/Nyrs Ymgynghorol</p>	<p>30 Ebrill 2026</p>
----	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------	-----------------------

5.	<p>Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau'n anghyson ar draws sawl system, gan gynyddu'r risg i barhad gofal diogel.</p>	<p>Cryfhau'r ffordd y caiff cofnodion cleifion eu cadw drwy sicrhau bod gwybodaeth glinigol yn cael ei chofnodi mewn modd clir, safonol a chyfunol.</p>	<p>Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023</p> <p>Gwybodaeth Diogel</p>	<p>Bydd y tîm aml-broffesiynol cyfan yn symud i gofnod cleifion electronig a fydd yn golygu bod modd cael trosolwg o'r holl ddogfennaeth aml-broffesiynol.</p> <p>Cynnal adolygiad clinigol o hapdetholiad o gofnodion cleifion i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau dogfennau proffesiynol.</p> <p>Cynnal trafodaeth tîm i atgyfnerthu'r safonau disgwylidig o ran dogfennau clinigol.</p>	<p>Nyrs Ymgynghorol</p> <p>Nyrs Ymgynghorol</p> <p>Nyrs Ymgynghorol</p>	<p>30 Mehefin 2026</p> <p>30 Awst 2026</p> <p>30 Mai 2026</p>
----	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------

6.	<p>Roedd y troli adfywio yn cael ei selio gan ddefnyddio cling ffilm, nad yw o bosibl yn bodloni'r gofynion o ran atal heintiau, rheoli meddyginiaethau na chynaliadwyedd yn llawn.</p>	<p>Adolygu priodoldeb y dull a ddefnyddir i selio'r troli adfywio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safonau atal a rheoli heintiau, gofynion rheoli meddyginiaethau ac ystyriaethau cynaliadwyedd.</p>	<p>Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023</p> <p>Diogel</p> <p>Effeithlon</p>	<p>Yn hanesyddol, mae'r BIP wedi defnyddio cling ffilm i selio troliâu adfywio er mwyn sicrhau mai dim ond ar gyfer sefyllfaoedd brys y caiff y cyfarpar ei ddefnyddio. Mae'r arfer hwn yn parhau ar gyfer pob troli hŷn ac mae'r modelau newydd yn defnyddio clymau cebl</p> <p>Mae troli model newydd bellach yn cael ei ddefnyddio yn lle'r troli adfywio a welwyd ar adeg yr arolygiad.</p>	<p>Nyrs Arweiniol</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
----	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------	-----------------------

7.	Roedd swyddi rheoli gweithredol a oedd wedi bod yn wag ers amser yn lleihau'r gallu i arwain a goruchwyllo.	Cryfhau'r capasiti arwain gweithredol er mwyn cefnogi trefniadau effeithiol o ran llywodraethu, goruchwyllo a datblygu'r gwasanaeth.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 Arweinyddiaeth	<p>Mae strwythur gweithredol diwygiedig wedi cael ei gymeradwyo'n ffurfiol er mwyn cryfhau trefniadau arwain a goruchwyllo'r gyfarwyddiaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Rheolwr parhaol wedi'i benodi ar gyfer y Gyfarwyddiaeth a bydd yn dechrau yn y swydd ar ôl i'r prosesau recriwtio gael eu cwblhau. • Penodi Rheolwr Gweithredol Band 6 – y dyddiad dechrau i'w gadarnhau ar ôl cwblhau'r gwiriadau cyn cyflogi • Cafodd swydd Band 7 ar gyfer Rheoli'r Uned Achosion Brys ei chymeradwyo'n ddiweddar gan y panel craffu a byddwn yn recriwtio ar ei chyfer yn ystod y mis nesaf (mae'r swydd yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd) 	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau	30 Mai 2026 30 Mehefin 2026 Awst 2026
----	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------	-----------------------------------------------------

				<p>Yn y cyfamser, cafodd capasiti ychwanegol ei sicrhau drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Un myfyriwr rheoli graddedig i helpu i gyflawni'n unol â'r strwythur gweithredol. 		Wedi'i gwblhau
8.	Roedd diffyg eglurder ynghylch atebolwydd ar lefel y safle a'r trefniadau ar alwad yn lleihau hyder y saff yn ymatebolwydd yr arweinwyr.	Diffinio a chyfleu atebolwydd ar lefel y safle a'r trefniadau ar alwad yn glir.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 Arweinyddiaeth	<p>Mae atebolwydd ar lefel y safle wedi'i ddiffinio'n glir yng Ngweithdrefn Weithredu Safonol Uned Mân Anafiadau'r Barri, gyda chyfarwyddyd penodol ynghylch y prosesau uwchgyfeirio.</p> <p>Bydd y Weithdrefn Weithredu Safonol hon yn cael ei rannu â phob aelod o'r staff a'i chynnwys ar agenda cyfarfod tîm y gyfarwyddiaeth er mwyn ei thrafod â'r holl staff.</p>	Nyrs Arweiniol/Ymgynghorol	30 Mai 2026

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Jane Murphy

Swydd: Cyfarwyddwr Nyrsio

Dyddiad: 22 Ebrill 2026